

# BETH YW AGWEDD DYNEIDDAETH TUAG AT FYW BYWYD HAPUS?

Un bywyd sydd gennym ni felly dylem ni **wneud y gorau o fywyd**. Dylem ni geisio **hapusrwydd** yn y presennol a dylem ni gefnogi pobl eraill i wneud yr un peth. Nid un ffordd yn unig sydd o fod yn hapus.

Mae modd dod o hyd i hapusrwydd yn ein perthynas â ffrindiau a theulu, mewn creadigrwydd, mewn natur, wrth gyflawni ein nodau, wrth fod yn dda i bobl eraill, wrth wneud y byd yn lle gwell.



JESSICA

Dylem ni i gyd fod yn **rhydd** i ddod o hyd i'r hyn sy'n ein gwneud yn hapus. Dylem ni fod yn rhydd i ddewis yr hyn yr ydym yn ei gredu a sut yr ydym yn byw, ar yr amod nad ydym yn achosi niwed. Dylem ni fod yn awduron ein bywydau ein hunain. Nid oes unrhyw sgrïpt y mae'n rhaid i ni ei dilyn. Felly, dylem ni ddangos **goddefgarwch** tuag at y rhai sy'n gwneud dewisiadau sy'n wahanol i'n rhai ni. Mae'n beth da bod gan bob un ohonom ni wahanol chwaeth a thalentau gan ei fod yn gwneud bywyd yn fwy diddorol. Dylai amrywiaeth gael ei dathlu.

HARI



Mae gennym ni **gyfrifoldeb** i feddwl yn ofalus ynghylch sut i fyw ac i wneud ein penderfyniadau ein hunain yn hynny o beth. Mae angen i ni ystyried canlyniadau ein gweithredoedd ar bobl eraill, anifeiliaid a'r blaned. Mae angen i ni gydnabod hefyd nad yw pawb yn hapus. Nid oes gan lawer o bobl ledled y byd y rhyddid na'r cyfle i ddod o hyd i hapusrwydd. Dylem ni geisio creu byd lle mae pawb yn cael y **cyfle** i ddod o hyd i hapusrwydd yn y presennol.

GUY



Mae bod yn hapus a **bod yn dda** yn mynd gyda'n gilydd. Nid yw'n ddewis rhwng y naill neu'r llall. Gall fod yn anodd bod yn dda i bobl eraill os nad ydym ni'n hapus ein hunain. Mae tystiolaeth dda hefyd y gall gwneud pobl eraill yn hapus ein gwneud ni'n hapus. Rydym ni'n **anifeiliaid cymdeithasol**. Mae ein hapusrwydd ni a hapusrwydd pobl eraill yn aml wedi'u rhwymo'n agos at ei gilydd.



ZENA

Nid wyf i'n hoffi'r cwestiwn, 'Beth yw ystyr bywyd?' Mae'n awgrymu bod ateb 'allan yna' y mae modd ei ddarganfod. Mae'n well gen i ofyn y cwestiwn, 'Sut gallaf i wneud fy mywyd i yn **ystyrlon**?' Ein lle ni yw gwneud ein hystyr ein hunain mewn bywyd. I mi, y **cysylltiadau** yr ydym ni'n eu gwneud sy'n gwneud bywyd yn ystyrlon: cysylltiadau â phobl eraill, cysylltiadau â'r stori ddynol barhaus, cysylltiadau â'r byd naturiol a chydabyddiaeth o'n lle ynddo.

JENNY



Mae rhai pobl yn gofyn ydy dealltwriaeth ddyneiddiaeth o fywyd yn gadael lle i ar gyfer syndod neu **ryfeddod**. Yr ateb yw ydy! Gall gwyddoniaeth, y byd naturiol, a'r stori ddynol fod yn ffynonellau rhyfeddod. Gall creadigrwydd a'r celfyddydau ddod â chysur a llawenydd. I ddyneiddwyr, nid yw bywyd heb grefydd yn llai rhyfeddol.



IMTIAZ